Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru
Llywodraeth Cymru

4 Hydref 2018

Annwyl Dr Goodall,

Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Gorffennaf 2018 i drafod gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cynnydd yn cael ei wneud, yn enwedig yn y gwaith gan y grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella cenedlaethol, a thrwy'r adolygiadau llywodraethu ariannol a gynhaliwyd yn ystod 2017-18.

Serch hynny, mae sefyllfa'r pedwar bwrdd iechyd, sy'n destun mesurau uwchgyfeirio ar hyn o bryd, yn dal i fod yn destun pryder mawr i'r Pwyllgor. Ymddengys i ni fod y posibilrwydd o'u hadfer i gydbwysedd ariannol a sefydlogrwydd gweithredol amserol yn parhau i fod yn ansicr iawn am y rhesymau a ganlyn:

- Betsi Cadwaladr – er ei fod wedi bod ar y lefel uchaf o gamau uwchgyfeirio ac ymyrryd ers sawl blwyddyn, mae'r bwrdd iechyd yn wynebu anawsterau sylweddol o hyd, ac ni roddodd tystiolaeth ysgrifenedig y bwrdd iechyd lawer o sicrwydd i'r Pwyllgor ei fod wedi gwneud llawer o gynnydd sylweddol heblaw am nodi rhestr o broblemau sy'n ei wynebu;
- Abertawe Bro Morgannwg – mae'r Pwyllgor yn croesawu'r brwdfrydedd a'r ymdeimlad o bwrpas a ddangosir gan y tîm arwain newydd. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod y bwrdd iechyd yn dal i wynebu heriau mawr ac efallai y bydd yn cael ei ansefydlogi yn sgil y gwaith o drosglwyddo

gwasanaethau iechyd ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Cwm Taf sydd ar y gweill;

- Caerdydd a'r Fro – mae'r Pwyllgor yn falch bod tystiolaeth lafar y bwrdd iechyd yn adlewyrchu gafael well ar ei gyllid, ond rydym yn bryderus ei bod yn ymddangos bod y bwrdd iechyd yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru gydnabod y pwysau cost sy'n ei wynebu er mwyn sicrhau cydbwysedd ariannol;
- Hywel Dda – mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod yr adolygiad cwbl gynhwysfawr a gynhaliwyd yn y bwrdd iechyd wedi'i gwblhau, ac yn nodi'r cymorth ariannol rheolaidd ychwanegol o £27 miliwn sy'n cael ei ddyfarnu o 2018-19 ymlaen. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bydd bwlch cylchol sylweddol o hyd yng nghyllid y bwrdd iechyd ac absenoldeb ymddangosiadol cynlluniau clir i fynd i'r afael â hyn.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Pwyllgor yn pryderu am grynodeb ACC o broblemau a nodwyd ar draws Cymru yn ei lythyr at y Pwyllgor hwn, yn arbennig, ar y cyfan, fod cyrff y GIG yn gwneud arbedion drwy gynlluniau tymor byr yn hytrach na sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy waith moderneiddio tymor hwy a thrawsnewid gwasanaethau. Mae'r Pwyllgor yn nodi'n gadarnhaol fod swm yr arbedion wedi cynyddu yn 2017-18 o'i gymharu â 2016-17. Rydym hefyd yn nodi'r newyddion cadarnhaol bod cyfran yr arbedion nad ydynt yn rhai cylchol wedi gostwng. Serch hynny, mae'r ffaith mai arbedion untro yw 29 y cant o'r arbedion yn 2017-18 yn dal i fod yn destun pryder ynghylch natur tymor byr y cynlluniau hyn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod canran gynyddol, sef 36.5 y cant o'r arbedion, wedi'u cyflawni yn y chwarter olaf. Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi cael rhagor o dystiolaeth sy'n pwysleisio bod BIP Cwm Taf, er gwaethaf cyflawni cydbwysedd ariannol, wedi parhau i ddibynnu i raddau helaeth ar arbedion afreolaidd (40 y cant o gyfanswm yr arbedion a gyflawnwyd ym mhob un o'r ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf).

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod y tystion yn cydnabod pwysigrwydd trawsnewid er mwyn gwneud eu gwasanaethau'n gynaliadwy a gwella gofal cleifion. Er bod y Byrddau wedi rhoi enghreifftiau o lle maent eisoes wedi trawsnewid gwasanaethau, roeddem yn teimlo bod y rhain yn dal i fod yn eithaf pell o'r newid y byddem wedi'i ddisgwyl. Mae'r Pwyllgor yn ystyried bod cyflwyno'r Gronfa Trawsnewid yn fenter bwysig ac mae ganddo ddiddordeb i weld sut y bydd hyn yn gweithredu'n ymarferol.

Mae nifer o feysydd lle hoffem gael rhagor o sicrwydd yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom. Mae prif bryderon y Pwyllgor yn ymwneud â'r canlynol:

- **Buddsoddi mewn gwasanaethau** – Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, dywedodd rhai Byrddau Iechyd wrthym eu bod wedi cael buddsoddiad cyfyngedig er mwyn cynnal cydbwysedd ariannol neu atal eu sefyllfa ariannol rhag dirywio. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r ffocws tymor byr hwn ar dargedau ariannol arwain at anawsterau gweithredol yn y dyfodol oherwydd diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau. Rydym hefyd yn pryderu y bydd y diffyg buddsoddi hwn yn tanseilio gallu'r cyrff i drawsnewid eu gwasanaethau a'u darparu yn y pen draw. Byddem yn croesawu rhagor o sicrwydd y gallwch ei roi i'r graddau y bydd y Gronfa Trawsnewid newydd yn galluogi cyrff y GIG i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o weithio.

- **Gallu a Galluogrwydd** – Dywedodd rhai byrddau iechyd yn eu tystiolaeth nad oedd ganddynt y gallu a'r galluogrwydd ar gyfer cynllunio ar gyfer y dyfodol a thrawsnewid gwasanaeth. Dywedodd Bwrdd Cwm Taf wrth y Pwyllgor nad oes ganddo ddigon o allu a galluogrwydd ar hyn o bryd i gyflawni newid mor gyflym ag sy'n ofynnol, a'u bod yn teimlo bod bwlch sgiliau ar draws y GIG o ran trawsnewid gwasanaeth. Rydym yn ansicr a oes gan y GIG yng Nghymru ddigon o allu a galluogrwydd i fynd i'r afael â'i heriau presennol a gwneud gwelliannau yn y dyfodol yn effeithiol. Rydym hefyd yn pryderu y gall diffyg gallu rheoli fod yn cyfyngu ar allu cyrff i drawsnewid gwasanaethau a chyflawni newidiadau yn ddigon cyflym er mwyn bodloni pwysau ariannol a gweithredol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu y gallai'r byrddau iechyd sy'n perfformio'n dda fod o dan anfantais drwy rannu eu staff a'u harbenigedd â byrddau iechyd sydd mewn trafferth.

- **Fformiwla Ariannu** – Mae'r Pwyllgor wedi'i siomi gyda sylw Llywodraeth Cymru ei bod yn annhebygol y bydd y fformiwla ariannu ddiwygiedig yn barod tan gylch ariannu 2020-21. Tynnodd nifer o fyrddau iechyd sylw yn eu tystiolaeth i'r Pwyllgor eu bod o'r farn bod y fformiwla bresennol yn eu rhoi o dan anfantais, ac roedd canlyniad yr adolygiad cyllideb cwbl gynhwysfawr ym Mwrdd Hywel Dda yn cydnabod nad oedd y dyraniad cyllid yn adlewyrchu anghenion yr ardal yn llawn. Yn ei dystiolaeth, er bod

ganddo'r arian cydradd uchaf fesul pen yng Nghymru, dywedodd Bwrdd Cwm Taf wrthym fod hyn yn adlewyrchu costau iechyd amddifadedd yn yr ardal ac roedd yn honni nad yw'n esbonio ei allu i fantoli'r gyllideb. Heb gwblhau adolygiad o'r fformiwla ariannu, mae'n anodd i'r Pwyllgor werthuso'r graddau y gellir priodoli sefyllfaoedd ariannol gwahanol y byrddau iechyd i'w rheolaeth unigol o'r pwysau, a'r graddau y gellir eu priodoli i'w dyraniadau cyllid. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddiweddaru'r fformiwla'n gyflymach.

- **Uwchgyfeirio** – Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen adolygu Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd y GIG er mwyn ystyried a ydynt yn effeithiol wrth helpu byrddau iechyd i oresgyn yr anawsterau sy'n eu hwynebu. Rydym wedi nodi datganiad mis Awst 2018 Ysgrifennydd y Cabinet ar y statws uwchgyfeirio diweddaraf, a'r awgrym bod rhywfaint o dystiolaeth o welliant mewn perfformiad. Serch hynny, gan roi ein pryderon am Fwrdd Betsi Cadwaladr i'r neilltu; mae byrddau Abertawe Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda oll wedi bod yn destun trefniadau uwchgyfeirio ers o leiaf ddwy flynedd, ond erbyn diwedd y cyfnod 2017-18 roedd gan bob un ddiffygion sylweddol. Byddem yn croesawu sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ei bod yn nodi ac yn dysgu gwersi o'r cynnydd araf a wnaed yn dilyn camau uwchgyfeirio ac ymyrryd. Yn benodol, byddem yn awyddus i wybod pa wersi y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dysgu am ei rôl ei hun yn y broses honno.

- **Cynllunio yn yr Hirdymor** – Mae'r Pwyllgor wedi nodi o'r dystiolaeth a gafwyd fod gan nifer o fyrddau iechyd strategaethau gwasanaethau clinigol deng mlynedd ar waith ochr yn ochr â'u Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (os oes ganddynt Gynllun cymeradwy o'r fath). O ystyried hyn, hoffai'r Pwyllgor wybod a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cynlluniau ariannol a hyblygrwydd tair blynedd yn gyfnod digonol i wneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer buddsoddiadau tymor hwy. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried y pryderon a fynegwyd gan rai o'r cyrff iechyd y byddent ond yn cymryd risgiau o ran buddsoddiad a newid strategol pe bai ganddynt sicrwydd llwyr y bydd y buddsoddiad yn cael ei ad-dalu o fewn tair blynedd. Rydym yn pryderu y gallai hyn gyfyngu sefydliadau rhag

arloesi yn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, oherwydd bod angen caeth i adennill costau o fewn cyfnod tynn o dair blynedd.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb ar y meysydd hyn.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd